# Undod

## Darllen: Effesiaid 4:13

Mae gennyf gof da i mi gael gwahoddiad i gymryd rhan yng ngwasanaeth yr Wythnos Weddi am Undod Cristnogol y flwyddyn y cefais f’ordeinio’n weinidog. Roedd y gwasanaeth y flwyddyn honno yn yr Eglwys Anglicanaidd, a’r offeiriad lleol oedd yn arwain y gwasanaeth. Does gen i fawr o gof i unrhyw un o’r gweinidogion gymryd rhan. Wedi i ni gyrraedd yr Eglwys, yr offeiriad ei hun oedd yn rhannu llyfrau’r gwasanaeth. Ac er mawr syndod i bawb, y llyfr oedd wedi’i ddosbarthu oedd ‘Claddedigaeth y Meirw’. Tybed oedd yr offeiriad yn ei ffordd ei hun yn ceisio dweud rhywbeth am y drefn flynyddol o weddïo am Undeb Cristnogol? Yn ystod fy mhlentyndod, doedd eglwysi’r pentref yn gwneud fawr ddim â’i gilydd; ond erbyn hyn mae yna fwy o gydweithio am ein bod yn cael ein gorfodi i wneud hynny. Mae’r gweinidogion a’r offeiriaid yn brin, a llawer o gapeli ac eglwysi’n cau. Ac felly mae’n anorfod ein bod yn agosáu at ein gilydd, gan ddathlu ein hamrywiaeth a cheisio dod i ddeall ein gilydd.

Ac eto, rywsut dydyn ni ddim yn symud ymlaen ryw lawer. Efallai ein bod dipyn anwylach efo’n gilydd, yn fwy parod i oddef ein gilydd, ond dydyn ni ddim yn cydgyfarfod i addoli ond ar achlysuron arbennig ac yna’n mynd yn ôl i barhau ein traddodiadau, a hynny’n aml iawn y tu ôl i ddrysau caeedig. Ac mae’r hen syniad o ‘gapel ni’ a’n ‘traddodiad ni’ yn dal i frigo i’r wyneb. Felly, yng ngoleuni hyn i gyd, beth yw’r ateb? Ble mae dechrau?

Er bod arweinwyr a chynrychiolwyr y gwahanol enwadau wrthi’n galed yn chwilio am y ffordd ymlaen, mae’n rhaid gofyn ai hwy yw’r bobl ddylai fod ar flaen y gad. Mae’n rhaid i’r galw ddod o blith y bobl eu hunain, cynulleidfaoedd lleol, plwyfi ac ardaloedd. Gyda nhw y dylid dechrau. Ac mae’n fater o frys. Nid moethusrwydd yw closio at ein gilydd, ond anghenraid. Sut mae mynd ati?

Hoffwn feddwl ein bod yn ein cymunedau bellach wedi cyrraedd lle arbennig ar ein taith ecwmenaidd, yn Babyddion, Anglicaniaid ac Ymneilltuwyr o bob lliw a llun, ac y gallwn gydgyfarfod, nid ar yr Wythnos Weddi yn unig ond ar achlysuron eraill hefyd. Cyfarfod yn grwpiau bychain i drin a thrafod materion fel natur y weinidogaeth, beth yn union yw'r sacramentau, ein defnydd o'r Beibl, ordeinio arweinwyr, lle'r eglwys gyfan a chwestiynau moesol sy'n dal i'n rhannu a'n pellhau oddi wrth ein gilydd. Beth am ddechrau siarad yn onest a gwrando'n astud ar gyfraniadau ein gilydd, heb geisio sgorio pwyntiau enwadol. Hynny yw, dod i adnabod ein gilydd, gofalu am ein gilydd, ymddiried yn ein gilydd er mwyn cenhadaeth yr Eglwys yn ein bröydd.

Yr unig ffordd ymlaen yw mentro, a bod yn barod i gymryd risg, er bod yr eglwysi ar hyd yr oesoedd wedi bod yn ofnus iawn i fentro i'r dyfodol. Dyma sy'n gwneud bywyd y Cristion mor gyffrous ac mor heriol. Nid cyfundrefn sydd wedi'i sefydlu'n ddiysgog hyd ddiwedd amser yw'r Eglwys. Pererinion ar daith ydi Cristnogion. Nid pobl lonydd, swrth sydd eu hangen ar Dduw ond pobl sydd wastad ar fynd, fel Iesu ei hun. 'Mae ef wedi mynd o'n blaen' oedd neges fawr y Pasg.

**Myfyrdod pellach:**

Faint o gydweithio sy'n digwydd yn eich ardal chwi?

Sut mae mynd ati i ddechrau cydweithio?